**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Grangetown a`r Bae

**Neuadd Gymunedol Sant Paul**
**Stryd Paget**
**Grangetown**
**Caerdydd**
**CF11 7LR**

**T/007/10N**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Grangetown a`r Bae yn neuadd yr eglwys ar dir Eglwys yr Apostol San Paul yn Grangetown, Caerdydd. Mae gan y Cylch yn unig ddefnydd o`r neuadd bob bore, ond rhaid gosod a chlirio adnoddau ac offer ar gyfer pob sesiwn gan ei bod yn neuadd amlbwrpas.

Ceir mynediad i`r Cylch drwy gyntedd gweddol fawr lle mae manylion y Cylch yn cael eu harddangos ac sy`n darparu ardal i rieni i gwrdd ac i`r plant i hongian eu cotiau a`u bagiau. Gwna`r cylch ddefnydd o gyfleusterau`r gegin ar gyfer paratoi byrbrydau ac ar gyfer gweithgareddau coginio. Mae`r cyfleusterau toiled yn ddigonol.

Mae gan y Cylch adnoddau priodol ar gyfer amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae`n rhydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i`r plant ysgrifennu a chreu marciau, chwarae dychmygus, gwaith creadigol, chwarae rôl ac ardal ar gyfer darllen. Mae mat mawr yn galluogi`r plant i eistedd ar gyfer cofrestru yn y bore ac ar gyfer amser stori pan mae`r plant yn cwrdd fel grŵp.

Mae`r Cylch wedi`i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer i fyny at 32 o blant o`r oedran 2½ - 4 oed. Ar hyn o bryd, mae 19 ar y gofrestr, gyda 9 ohonynt yn 3 oed ac yn cael eu hariannu. Daw`r plant o`r ardal gyfagos – ardal a ddisgrifir gan y Cylch fel un nad yw o dan fantais nac anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae`r Cylch yn croesawu plant o gymunedau ethnig a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Daw bron hanner y plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg a does neb yn dysgu`r Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cafodd y Cylch ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC ym mis Tachwedd 2010 ac mae `r Cylch wedi mynd i`r afael â`r materion a godwyd. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Prif arfarniad**

- Mae`r ddarpariaeth ar gyfer gofal, arweiniad a chymorth y plant yn dda.
- Mae`r trefniadau ar gyfer sicrhau lles y plant yn dda.
- Mae`r staff yn gweithio`n dda gyda`i gilydd fel tîm.
- Drwyddi draw, mae`r plant yn gwneud cynnydd da.
- Mae`r rhieni yn fodlon iawn â`r ddarpariaeth a chyda`r cynnydd a wneir gan y plant.

### Rhagolygon gwella

- Mae`r arweinydd presennol a`r staff wedi gweithio gyda`i gilydd yn dda i ddatblygu`r Cylch gyda gwelliant amlwg yn y cynllunio a`r asesu dros y 3 mis diwethaf.
- Mae`r pwyllgor rheoli yn rhagweithiol, gan chwilio am ffyrdd i hyrwyddo a dtablygu`r lleoliad.
- Mae`r lleoliad yn hunanarfarnol ac wedi goresgyn y newid diweddar mewn arweinyddiaeth yn llwyddiannus.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r lleoliad:

A1 gynllunio ar gyfer dysgu`r plant fel bod gweithgareddau yn cyfateb yn dda i allu`r plant ac i sicrhau bod y dysgu yn adeiladu`n gynyddol ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol;

A2 mireinio`i weithdrefnau asesu er mwyn nodi cyflawniadau`r plant yn glir, i adnabod y camau nesaf yn nysgu`r plant ac i ddefnyddio`r canlyniadau i fwydo`r cynllunio;

A3 cynnwys blaenoriaethau ac hunanarfarniad o`r hyn sydd wedi`i gyflawni yn yr adroddiad hunanarfarnu.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd rheolaeth y Cylch yn cynhyrchu cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

Bydd cynnydd wrth fynd i`r afael â`r argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol ac yn cael ei adrodd i Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn gwneud cynnydd realistig ymhob maes dysgu. Maent yn gweithio a chwarae yn ddiwyd, gan dangos diddordeb yn y gweithgareddau a osodir iddynt. Mae`r plant yn hyderus i wneud dewisiadau ac yn dyfalbarhau yn ystod eu tasgau.

Mae gan yr holl blant fedrau cyfathrebu da yn unol ag oedran. Maent yn mynegi eu hun gan ddefnyddio geirfa briodol, ac yn gwrando ar oedolion a dilyn cyfarwyddiadau yn brydlon. Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau; dewisant eu hoff storïau a dal llyfrau`n gywir. Mae ychydig o blant yn arbrofi gydag ysgrifennu, gan ddal penseli yn briodol a gwneud marciau sy`n hawdd i`w hadnabod ar bapur. Mae`r plant yma`n gwybod am swyddogaethau ysgrifennu.

Mae llawer o blant yn adnabod patrwm ac yn cyfateb gwahanol siapiau. Mae lleiafrif o blant yn enwi ac adnabod siapiau syml dau-ddimensiwn gan gynnwys sgwarau, trionglau a chylchoedd. Maent yn dechrau deall iaith fathemategol sylfaenol, fel "llawn" a "gwag". Nid oes cyfleoedd i`r plant ddefnyddio technoleg, fel teganau a reolir gan fatri neu i ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol.

Mae`r holl blant yn datblygu geirfa dda yn y Gymraeg sy`n berthnasol i`w cefndir ieithyddol. Mae`r plant o gartrefi lle caiff Cymraeg ei siarad yn siarad yn eglur, tra bod rhai o gartrefi lle caiff Saesneg ei siarad yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol ac mae eu caffaeliad o`r iaith yn datblygu. Mae`r holl blant yn ymateb yn dda ac yn mwynhau caneuon actol a rhigymau yn y Gymraeg ac mae pob un yn perfformio`n frwdfrydig.

**Lles: Da**

Mae`r holl blant, yn eu gweithgareddau dyddiol, yn dangos eu bod yn teimlo`n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth gam drin corfforol a geiriol yn y Cylch. Dangosant fwynhad mewn dysgu ac agwedd ofalgar tuag at eu gilydd. Mae`r plant yn hapus i rannu a chymryd tro. Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda ac yn uniaethu`n dda ag oedolion.

Rhoddir byrbrydau iach i`r plant ganol bore ac maent yn dechrau gwerthfawrogi bwyta`n iach. Mae`r holl blant yn mwynhau gweithgaredd corfforol egnïol.

Ceir yma gymuned agos ac mae`r Cylch yn rhan annatod ohoni. Mae`r plant yn cael eu gwerthfawrogi a`u parchu ac yn cael cyfleoedd cynyddol i wneud penderfyniadau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r cynllunio yn llwyddo i ddarparu`r holl blant â gweithgareddau diddorol sy`n ennyn eu diddordeb yn llawn ac yn eu galluogi i wneud cynnydd tuag at ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio`n sicrhau bod datblygiad systematig yn digwydd yn nealltwriaeth a gwybodaeth y plant. Nid yw`r cynllunio chwaith yn darparu ar gyfer gwaith gwahaniaethol digonol fel bod y gweithgareddau`n cyfateb yn dda i oed a gallu gwahanol y plant ac i`w darparu ar gyfer ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae perthnasau o fewn y Cylch yn dda iawn. Mae`r oedolion yn dangos parch tuag at y plant sydd yn eu tro yn parchu eu gilydd ac oedolion. Mae awyrgylch o oddefgarwch yn amlwg ac mae`r plant yn datblygu agweddau gofalgar.

Wrth ymwneud â`r plant, mae`r oedolion yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu medrau sylfaenol y plant, yn enwedig eu medrau cyfathrebu a cheir cyfleoedd da i`r plant ddatblygu eu medrau creadigol. Caiff y plant anogaeth dda i ddefnyddio`r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, drwyddi draw, nid yw`r cynllunio i ddatblygu medrau`r plant yn systematig nac yn drefnus. Mae`r Cylch yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o`r holl blant. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion.

Caiff ymddygiad y plant eu rheoli`n dda ac mae`r oedolion yn fodelau rôl da, wrth ymwneud â`r plant a hefyd fel modelau iaith. Mae`r oedolion yn defnyddio cwestiynu`n dda i ddatblygu syniadau`r plant ac yn gwybod pryd i ymyrryd mewn gweithgareddau. Gweithia`r staff yn dda iawn fel tîm ac maent yn sensitif i anghenion unigol y plant, ond nid yw`r gweithgareddau bob tro`n canolbwyntio`n ddigonol ar wahanol alluoedd y plant.

Caiff y plant eu hasesu`n rheolaidd mewn sawl ffordd wahanol a chofnodir yr arsylwadau. Fodd bynnag, mae`r system yn dangos diffyg trefn ac mae angen ei mireinio er mwyn cofnodi cynnydd pob plentyn gyda dyddiad. Nid yw`r system gyfredol yn nodi camau nesaf y plant mewn dysgu ac fel canlyniad, mae`r defnydd yn gyfyngedig wrth gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r gofal, cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu gan y Cylch yn un o`i brif gryfderau. Mae`r holl blant yn cael eu cwrdd a`u cyfarch yn unigol pan maent yn cyrraedd a rhoddir sylw arbennig i unrhyw un sy`n pryderu. Mae`r plant yn mynd i`r afael yn fuan â`r gweithgareddau a osodir iddynt.

Mae`r Cylch yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus ac yn helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir.  Mae`r holl blant yn dysgu sut i rannu a helpu eu gilydd, fel er enghraifft wrth gael eu byrbryd ganol bore.

Mae pob gofal yn cael ei roi i sicrhau lles y plant – mae cyfleusterau golchi dwylo yn cael eu darparu ac nid oes angen atgoffa`r mwyafrif o`r plant am bwysigrwydd cadw`n lân.

Caiff y plant eu goruchwylio`n dda tu allan i`r Cylch ac mae hyn yn cael ei hwyluso gan ffens sy`n ddiogel rhag plant rhwng y lleoliad tu allan a`r heol.  Yn yr un modd, mae gan y plant fynediad at ardal chwarae tu allan pan mae`r tywydd yn caniatau. Cedwir y prif ddrws ar glo sy`n sicrhau nad oes yr un plentyn yn medru gadael na`r un oedolyn ddod i mewn yn ddi-rybudd.  Mae`r staff yn wyliadwrus pan mae`r plant yn cael eu casglu amser cinio.  Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y plant.  Ceir person enwebedig sydd â chyfrifoldeb ar gyfer diogelu plant ac mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).  Mae`r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol.

Gwna`r Cylch ddefnydd da o wasanaethau cefnogi proffesiynol yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae`r ethos gadarnhaol yn nodwedd gref o`r Cylch ac yn sicrhau bod yr holl blant yn rhydd oddi wrth aflonyddwch ac unrhyw ffurff o ymddygiad gprmesol.  Mae gan yr holl blant, pa beth bynnag bo`u cefndir, hawl gyfartal i bob agwedd o`r cwricwlwm. Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o`u hanghenon unigol.

Mae gan y staff gymwysterau a phrofiad da.  Ar y cyfan, mae`r adnoddau`n ddigonol i gwrdd ag anghenion Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ond bydd rhaid iddynt adlewyrchu newidiadau wrth i`r cwricwlwm ddatblygu yn y dyfodol.

Mae`r ystafell yn gynnes ac yn helaeth sy`n golygu y gellir cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau tu fewn, gan gynnwys gweithgareddau corfforol egnïol.  Yn anffodus, mae`r neuadd yn un aml-bwrpas sy`n golygu bod rhaid storio`r offer ar ddiwedd pob sesiwn, ond mae`r cyfleusterau storio yn ddigonol gyda mynediad hawdd iddynt. Ceir hefyd ystafell arall a chegin sy`n cael ei defnyddio yn ystod amser byrbryd.  Ceir cyfleusterau tu allan sy`n cael eu defnyddio`n dda.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae`r arweinydd presennol yn ei swydd ers Medi 2010.  Er bod yr arweinydd wedi gweithio yn y Cylch o`r blaen, roedd ganddi`r dasg o gynllunio a threfnu`r Cylch o fis Medi. Yn yr amser byr ers iddi fod yn arweinydd, mae hi a`r dirprwy arweinydd wedi gweithio`n galed i ddatblygu`r Cylch.

Mae rheolaeth y Cylch yn dangos synnwyr o bwrpas ac ymrwymiad i wella. Mae cyfeiriad clir yn amlwg ac fel tîm mae`r holl staff yn dangos ethos gadarnhaol a bodlonrwydd i godi safonau. Mae disgywliadau uchel yn amlwg ac mae pob un yn rhannu gwerthoedd, amcanion a nodau sy`n ffocysu ar roi`r ddarpariaeth gorau posibl i`r holl blant. Mae hyn yn cael ei hwyluso gan y cysylltiadau da iawn sydd wedi`u sefydlu â`r rhieni sy`n gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi`r Cylch yn fawr.

Mae gan y cylch bwyllgor rheoli effeithiol sydd ag ymrwyniad llawn i`r Cylch ac sydd wedi cyflawni cryn dipyn yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys lledaenu gwybodaeth am y Cylch yn yr ardal gyda`r canlyniad bod mwy o blant yn mynychu sy`n sicrhau ei ddichonoldeb ariannol. Mae rhieni wedi cael eu hannog a`u gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd rheoli a chânt wybodaeth yn rheolaidd bob chwarter.

Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o`r staff ac er bod gwerthuso staff wedi cymryd lle, y bwriad yw y bydd hyn ar sail mwy ffurfiol yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn nodi gofynion hyfforddiant.

Drwyddi draw, dyma grŵp rheoli effeithiol sy`n argoeli`n dda ar gyfer datblygiad y Cylch yn y dyfodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae dogfen hunanarfarnu`r Cylch yn fanwl ac yn rhestru arfarniad clir a dyfarniadol o`r sefyllfa gyfredol a`r ffynonellau o dystiolaeth sy`n sail iddi. Mae pob un o`r dangosyddion ansawdd yn y fframwaith arolygu yn cael eu cynnwys gyda sylwadau ychwanegol lle`n briodol. Dros y misoedd diwethaf, mae`r Cylch wedi llwyddo i sefydlu amgylchedd dysgu da lle mae`r plant yn mwynhau gweithgareddau ac wedi gwneud cynnydd da. Er bod gwelliannau diweddar yn amlwg, nid yw`r Cylch wedi nodi`n ddigonol yn ei ddogfen hunanarfarnu y meysydd i`w datblygu a`r strategaethau i`w mabwysiadu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r rhieni yn gefnogol iawn o`r Cylch ac yn gweithio`n dda gyda`r staff er lles y plant. Mae`r Cylch yn gofyn barn rhieni yn rheolaidd ac mae awyrgylch glir o hyder rhyngddynt a`r staff. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi polisi`r “drws agored” a`i bod yn hawdd cyfathrebu â`r staff. Mae hyn yn caniatau y gellir delio ag unrhyw bryderon yn brydlon.

Mae`r Cylch yn elwa o`r gefnogaeth a chaiff gan Fudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn yn cynnwys cyngor proffesiynol, defnydd o`i bolisïau ac adnoddau a ddarperir gan y Mudiad. Mae cysylltiadau effeithiol hefyd gyda staff ymgynghorol yr Awdurdod Lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r staff yn cydweithio`n dda fel tî m sy`n cael effaith arwyddocaol ar gynnydd y plant.

Mae gan y Cylch adnoddau digonol ond mae defnydd aml-bwrpas o`r neuadd yn golygu bod rhaid gosod a chlirio i ffwrdd ar gyfer pob sesiwn. Fodd bynnag, gwneir

defnydd da o`r amgylchedd tu allan a thrwyddi draw, mae`r Cylch yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Pump holiadur cafodd eu dychwelyd gyda`r ymatebion yn nodi cefnogaeth gref o bob agwedd o`r Cylch.  Roedd trafodaeth gyda sampl o rieni yn ystod yr arolygiad wedi cadarnhau hyn.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae plant yn mwynhau dod i`r Cylch. Maent yn mwynhau`r gweithgareddau a`r gefnogaeth gan y staff.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)